CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 10 Medi 2024 am 4.30pm yn Siambr y Cyngor, 2 Llys Cadwyn, Stryd Taf, Pontypridd, CF37 4TH ac ar Zoom.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol:-

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Stacey	Y Cynghorydd L Ellis
Y Cynghorydd G Holmes	Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd W Hughes	Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd A O Rogers	Y Cynghorydd J Turner

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Mr O Williams, Uwch Gyfreithiwr – Materion Ymgyfreitha

8 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick a D. Evans.

9 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r agenda.

10 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

PENDERFYNWYD nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

11 COFNODION

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2024 yn rhai cywir.

12 ADOLYGU DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU 2024–2030

Darparodd y Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol yr adroddiad i'r Pwyllgor sydd i drafod diwygiadau a gynigiwyd gan y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned i Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor ar gyfer 2025–2030.

Ar ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu gymeradwyo cynnal ymgynghoriad mewn cyfarfod ar 4 Mehefin 2024, cafodd yr Aelodau wybod bod y polisi trwyddedu drafft yn agored i sylwadau rhwng 10 Mehefin a 21 Gorffennaf 2024. Cafodd yr ymgynghoriad gyhoeddusrwydd mewn papurau newydd lleol, ar dudalen ymgynghori gwefan RhCT, ac ar gyfryngau cymdeithasol RhCT, a'i anfon yn uniongyrchol at Awdurdodau Cyfrifol. Yn ogystal â hyn, cafwyd sylwadau dau Awdurdod Cyfrifol, sef Heddlu De Cymru a Bwrdd Iechyd y Cyhoedd, ac roedd 79 ymateb i'r holiadur cyffredinol ar-lein.

Dywedwyd bod ystyriaeth wedi ei roi i sylwadau'r heddlu, a bod nifer o fân newidiadau wedi eu gwneud i'r ddogfen, a hefyd bod ystyriaeth wedi ei roi i sylwadau eraill yr heddlu, gan gynnwys ymholiad ynglŷn ag asesiad effaith gronnol ac ardoll hwyr y nos. At hynny, dydyn ni ddim yn credu bod unrhyw feysydd sydd angen asesiad effaith gronnol o fewn Cyngor RhCT ar hyn o bryd. Byddai cyflwyno hyn yn gofyn am dystiolaeth sylweddol o broblemau sydd ddim yn ategu'r amcanion trwyddedu. Byddai'n cymryd cryn amser i gasglu'r dystiolaeth yma gan bob Awdurdod Cyfrifol, yn ogystal ag adrannau eraill megis Swyddogion Cymunedau Diogel. Hyd yn hyn, does dim cais wedi dod i law sy'n cyfiawnhau cynnal ymchwil i weld a oes angen asesiad effaith gronnol.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNODD** yr Aelodau ar y canlynol:

1. Nodi'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

2. Cytuno ar gynnig Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd i gyflwyno'r adroddiad wedi'i ddiweddaru i'r Cyngor Llawn.

13 ADOLYGIAD O DDEDDF TRWYDDEDU 2003 AC O DDEDDF GAMBLO 2005

Cyflwynodd y Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio adroddiad i'r Pwyllgor oedd yn trafod materion perthnasol o ran Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 ar gyfer y cyfnod rhwng 20 Mai a 18 Awst 2024, yn ogystal â materion atodol eraill sy'n deillio o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Cafodd yr Aelodau wybod bod nifer yr Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro wedi cynyddu i 133 yn y cyfnod yma o'i gymharu â 104 yn ystod y cyfnod diwethaf. Mae hyn yn arferol ar gyfer cyfnod yr haf pan mae gwyliau, chwaraeon, achlysuron teuluol ac achlysuron elusennol. Dywedwyd hefyd

bod tafarn y Bute Arms wedi gofyn am sawl Hysbysiad o Achlysur Dros Dro i baratoi ar gyfer cais amrywio trwydded. Ar ben hynny, roedd yr Eisteddfod hefyd wedi arwain at wahanol leoliadau'n gofyn am gynnal gweithgareddau sydd angen trwydded ac estyniadau i'w trwyddedau, oherwydd y llif o bobl ychwanegol i'r ardal.

Mae dadansoddiad o'r ceisiadau am Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro yn nodi bod 63 wedi'u rhoi i safleoedd sydd â thrwydded eisoes, 51 wedi'u rhoi ar gyfer achlysuron yn y gymuned a 19 wedi'u rhoi i glybiau preifat.

Dywedodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio bod un cais i Amrywio Trwydded Safle a gafodd ei herio wedi'i gymeradwyo ers adroddiad diwethaf y Pwyllgor ar sail amodau a gynigiwyd gan yr Awdurdodau Perthnasol ynghyd ag amod yn cyfyngu amseroedd gwerthu alcohol (i'w gael oddi ar y safle yn unig) i'r oriau canlynol: rhwng 9am a 9pm ddydd Llun i ddydd Sul. Hefyd, doedd dim adolygiadau nac apeliadau wedi'u penderfynu yn ystod y cyfnod yma.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 4.3 yr adroddiad, lle caiff arolygiadau o safleoedd a thor rheolau eu hamlinellu. Yn ôl yr adroddiad, lefel cyflawniad bresennol y safleoedd wedi'u harolygu yw 89.91%.

Dywedwyd bod bar cudd arddull "speakeasy" newydd wedi agor yn llwyddiannus ym Mhontypridd mewn pryd ar gyfer yr Eisteddfod. Roedd y lleoliad yma'n boblogaidd yn ystod yr ŵyl ac mae perchennog y busnes wedi ymuno â'r cynllun gwarchod tafarndai 'Pubwatch' lleol.

Cafodd yr Aelodau wybod bod ymweliad â chlwb aelodau preifat yn Llantrisant wedi'i gynnal fis Mehefin yn dilyn ymosodiad cas y tu allan i'r eiddo. Cafodd Heddlu De Cymru wybod am yr ymosodiad ac roedden nhw wedi delio ag elfen droseddol y digwyddiad. Rhoddodd Swyddogion Trwyddedu o garfanau'r Awdurdod Lleol a'r heddlu gyngor cynhwysfawr i Ysgrifennydd y Clwb i leddfu'r risg o ddigwyddiad tebyg. Dyw hwn ddim yn leoliad sy'n peri pryderon i'r Awdurdodau, felly cymerwyd hyn i ystyriaeth pan gafodd cyngor ei roi.

Dywedodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fod prawf prynu bwyd ar ôl 11pm wedi'i gynnal ar gyfer siop sy'n gwerthu bwyd parod yng nghanol tref Pontypridd yn dilyn cwyn am werthu bwyd poeth ar ôl yr awr derfynol. Ar ben hynny, mae perchennog y busnes eisoes wedi derbyn cyngor swyddogion ac wedi bod i swyddfeydd y Cyngor o'r blaen am gyngor cyn ymgeisio, felly mae camau pellach yn cael eu hystyried.

Cafodd yr Aelodau wybod bod swyddogion wedi ymweld â lleoliad ar y cyd â Safonau Masnach yn dilyn nifer o gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwerthu nwyddau i bobl dan oed ac achosion honedig o gamddefnyddio a gwerthu cyffuriau. Dywedwyd hefyd bod cyngor wedi'i roi a bod deiliad y drwydded a'r Goruchwyliwr Safle Penodedig wedi rhoi mesurau ar waith, wedi gosod camerâu teledu cylch cyfyng ac arwyddion

y tu allan, yn monitro'r ardal awyr agored, a bod cytundeb i gau giatiau pan mae'n brysur. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro.

Cafodd yr Aelodau wybod bod swyddogion wedi chwarae rhan fawr yn y broses gynllunio ar gyfer yr Eisteddfod ac wedi mynychu llawer o gyfarfodydd y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Achlysuron drwy gydol y flwyddyn i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth drwyddedu. Yn ystod 8 diwrnod yr achlysur, aeth Swyddogion Trwyddedu i Faes A, Maes B, a chanol y dref i ymweld â llawer o'r lleoliadau trwyddedig presennol, gan gynnig arweiniad a chyngor yn ôl yr angen. Ar ben hynny, mae'n braf dweud taw ychydig iawn o broblemau mân oedd wedi codi yn ystod yr achlysur ac mae'r lleoliadau yng nghanol y dref wedi nodi ffigurau masnach rhagorol yn ystod yr ŵyl.

O ran adennill ffioedd blynyddol, cafodd yr Aelodau wybod bod yr anfonebau heb eu talu yn arferol ac y bydd swyddogion yn dilyn eu trywydd. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y ffaith taw o fis Gorffennaf oedd yr wybodaeth uchod. Bydd y ffigyrau uchod yn newid erbyn cyfarfod nesaf y pwyllgor.

Tynnodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio sylw Aelodau at adran 5.1 yr adroddiad a rhoddodd ddiweddariad iddyn nhw mewn perthynas â Deddf Gamblo 2005.

Cafodd Aelodau grynodeb o ganiatâd presennol mewn perthynas â phroffil masnachu safleoedd â thrwydded.

Ar ôl i'r Pwyllgor drafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â Deddf Trwyddedu 2003, a gafodd ei ddarparu er gwybodaeth.

2. Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â Deddf Gamblo 2005, a gafodd ei ddarparu er gwybodaeth.

14 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

15 TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A RODDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG YN YSTOD Y CYFNOD: 20.05.24–18.08.24

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 20 Mai a 18 Awst 2024 i'r Pwyllgor. **PENDERFYNWYD** nodi

cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod yma i ben am 4.39pm

Y Cynghorydd A Fox Cadeirydd.

.